| GWYBODAETH I YMWELWYR SY'N DOD I DDIGWYDDIADAU YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | INFORMATION FOR GUESTS ATTENDING EVENTS AT THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES |
|---|---|
| Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol cysylltwch â threfnydd y digwyddiad. | If you require this information in an alternative format please contact the organiser of your event. |
| <u>**Cyn y digwyddiad**</u> | <u>**Before the Event**</u> |
| **Cod ymddygiad ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus** | **Code of behaviour for public events** |
| Dylid darllen y ddogfen hon yn drylwyr. Mae dod i ddigwyddiad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn golygu eich bod yn derbyn cynnwys y ddogfen hon. | You should ensure that you read this document carefully as your confirmation that you will participate in an event constitutes your acceptance. |
| Disgwylir i'r rhai sy'n dod i ddigwyddiad yn y Cynulliad Cenedlaethol:<br>• gyrraedd a gadael yr adeilad yn ddistaw;<br>• diffodd ffonau symudol, peiriannau galw a dyfeisiau electronig eraill;<br>• dilyn cyfarwyddiadau swyddogion y Cynulliad;<br>• cadw eich bagiau a'ch eiddo personol gyda chi drwy'r amser;<br>• gwisgo bathodynnau diogelwch drwy'r amser;<br>• ymddwyn mewn ffordd sy'n ystyriol o ddiogelwch a chysur gwesteion eraill;<br>• bwyta ac yfed yn y mannau penodol yn unig;<br>• ymddwyn yn gyfrifol ac mewn ffordd sy'n dangos cwrteisi, urddas a pharch at eraill. | All attendees at events at the National Assembly for Wales (the Assembly) are expected to:<br>• enter and leave the building quietly;<br>• switch off mobile phones, pagers and other electronic devices;<br>• obey instructions given by Assembly officers;<br>• not leave baggage and personal items unattended;<br>• display event badges at all times whenever supplied;<br>• conduct themselves with consideration for the safety and comfort of other guests;<br>• eat, drink or smoke in designated areas only;<br>• act responsibly in a manner that is respectful to others with courtesy, dignity and positive regard. |
| **Cyrraedd** | **On arrival** |
| Dylech fynd i brif fynedfa yr | Please arrive via the main entrance |

| | |
|---|---|
| adeilad a nodwyd ar eich gwahoddiad, oni nodir ar y llythyr neu wahoddiad i chi ddefnyddio mynedfa wahanol. Ceir manylion am leoliad eich digwyddiad ar y gwahoddiad.<br><br>**Gwahoddiad**<br><br>Dylech gadw eich gwahoddiad a dod ag ef gyda chi i'r digwyddiad. Mae hyn yn rhan o'r gweithdrefnau diogelwch a bydd gofyn i chi gyflwyno eich gwahoddiad wrth gyrraedd. Gall anghofio eich gwahoddiad olygu na chewch chi ddod i mewn i'r adeilad.<br><br>**Trefniadau mynediad i bobl anabl**<br><br>Er mwyn i'ch ymweliad â'r Cynulliad fod mor bleserus â phosib, dylech roi gwybod i drefnwyr y digwyddiad am unrhyw drefniant posibl a fydd yn eich galluogi i gael mynediad llawn i'r digwyddiad. Byddai'n ddefnyddiol iawn pebaech yn gallu gwneud hyn o flaen llaw er mwyn ein galluogi i wneud y trefniadau angenrheidiol. Efallai y bydd gofyn i chi ein hysbysu ymlaen llaw os oes angen defnyddio dolen sain neu system is-goch arnoch, os hoffech gael gwybodaeth mewn fformat arall, neu os bydd angen aildrefnu'r ystafell neu'r seddi.<br><br>**Oedi ger y fynedfa**<br><br>Os yw eich digwyddiad yn cael ei gynnal yn ystod y dydd, gall ciw o bobl fod yn disgwyl i ddod mewn i'r adeilad. Dilynwch arwyddion ar gyfer ymwelwyr neu ewch i flaen y ciw, a gadael i'r staff wybod eich bod yma ar gyfer digwyddiad. | of your allocated building unless your letter or invitation specifically mentions using one of our other entrances. The details of where your event is being held and location of the relevant entrance will be specified on your invitation.<br><br>**Invitation**<br><br>Please retain your invitation and bring it with you to the event as this will form part of the security procedures and you will be asked for it on arrival. Failure to produce your invitation may mean that your access to the building is refused.<br><br>**Access arrangements for disabled visitors**<br><br>In order to make your visit to the Assembly as enjoyable an experience as possible, please inform the events organiser of any arrangements which can be made to enable full access to the event. It would be extremely helpful if you do this in advance of the event to enable the necessary arrangements to be put in place. Advance notice may be required if, for example, you require use of the induction loop, infra red system, information in an alternative format or the seating/room layout to be rearranged.<br><br>**Queues at the entrance**<br><br>If your event is on during the day, there may be a queue of people waiting to get into the building. Please follow any signage for event attendees or make your way to the top of the queue and let |

| | |
|---|---|
| Cofiwch hefyd y gallai'r ciw fod yn cynnwys pobl sydd yn mynd i'r un digwyddiad â chi.<br><br>**Diogelwch**<br><br>Bydd gweithdrefnau diogelwch ar gyfer pob unigolyn a ddaw mewn i'r adeilad. Mae'r gweithdrefnau yn y Senedd a Thŷ Hywel yn cynnwys cael eich sganio.<br><br>**<u>Yn ystod y digwyddiad</u>**<br><br>**Gwagio'r adeilad mewn argyfwng**<br><br>Os bydd angen gwagio'r adeilad mewn argyfwng, bydd staff diogelwch a swyddogion y digwyddiad yn rhoi cyfarwyddiadau ac yn eich cynorthwyo i adael.<br><br>**Gwagio'r adeilad mewn argyfwng i bobl sydd angen cymorth**<br><br>Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i adael yr adeilad mewn argyfwng, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau cyn dod i'r Cynulliad:<br><br>Tîm Digwyddiadau<br>Ffôn: (029) 20 898201/8550/8540/8084<br>E-bost:<br>eventsteam@cymru.gsi.gov.uk<br><br>**Teithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**<br><br><u>Ar drên</u><br>Mae gwasanaeth trên ar gael bob 20 munud o Orsaf Heol y Frenhines i Orsaf Bae Caerdydd. Mae gorsaf y Bae ychydig funudau o'r Senedd a'r Pierhead. | staff know that you are here for an event. Please remember though that the queue may just be other delegates for your event.<br><br>**Security**<br><br>Mandatory security procedures will be in place for all persons entering the building. This includes an airport style check in the Senedd and Ty Hywel.<br><br>**<u>During the Event</u>**<br><br>**Evacuation of the building**<br><br>Should it be necessary to evacuate the building, Security personnel and Events Officers will provide instructions and assistance.<br><br>**Evacuation for visitors who require assistance**<br><br>If you will require additional assistance in the event of an evacuation please contact the Events Team prior to your attendance:<br><br>Events Team<br>Tel: (029) 20 898201/8550/8540/8084<br>Email:<br>eventsteam@wales.gsi.gov.uk<br><br>**Travelling to the National Assembly for Wales**<br><br><u>Train</u><br>Services run every 20 minutes from Cardiff Queen Street Station to Cardiff Bay Station. The station is a few minutes walk from the Senedd and the Pierhead.<br><br><u>Bus</u><br>The Baycar bendy bus leaves from |

| | |
|---|---|
| <u>Ar fws</u><br>Mae Bws y Bae yn gadael o Orsaf Heol y Frenhines, Dumfries Place, Heol y Brodyr Llwydion, Heol Eglwys Fair ac o Orsaf Drên Caerdydd Canolog bob 10 munud ac yn stopio ar Stryd Pierhead a thu allan i Ganolfan y Mileniwm sydd gerllaw'r Senedd.<br><br>Mae gwasanaethau rhif 7, 8 ac 11 yn gadael o Heol y Castell neu Heol y Porth bob 15 munud ac yn stopio ar Stryd Pierhead sydd tua 200 metr o'r Senedd a'r Pierhead.<br><br>Fel arall, mae gwasanaethau rhif 35 a 36 yn gadael o arhosfan E1yng ngorsaf bws canol Caerdydd, bob 20 munud i Ganolfan y Mileniwm, sydd gerllaw'r Senedd.<br><br><u>Gyrru</u><br>Gadewch yr M4 ar gyffordd 33 a dilyn yr A4232 i Fae Caerdydd. Dilynwch arwyddion at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, CF99 1NA.<br><br><u>Parcio ceir</u><br>Y maes parcio talu ac arddangos agosaf yw Mermaid Quay, sydd dafliad carreg i ffwrdd o'r Pierhead. Mae swyddogion diogelwch yn y maes parcio drwy'r amser. Gellir parcio â thaleb y tu allan i'r Eglwys Norwyaidd.<br><br><u>Parcio bysus moethus</u><br>Gellir cael gafael ar fap sy'n dynodi mannau aros trwy gysylltu â llinell archebu'r Cynulliad. Ffoniwch **0845 010 5500** neu anfonwch e-bost i gwybodaeth@cymru.gsi.gov.uk.<br><br><u>Parcio hygyrch i bobl anabl</u><br>Mae mannau parcio ar gael ym | Cardiff Queen Street Station, Dumfries Place, Greyfriars Road, St.Mary Street or Cardiff Central Rail Station every 10 minutes and stops at both Pierhead Street and outside the Wales Millennium Centre adjacent to the Senedd.<br><br>Routes 7, 8 and 11 depart from Castle Street or Westgate Street and operate every 15 minutes and stop on Pierhead Street, a short walk (approximately 200 metres) from the Senedd and the Pierhead.<br><br>Alternatively, from Cardiff central bus station, routes 35 and 36 depart from stand E1 and operate every 20 minutes to the Wales Millennium Centre adjacent to the Senedd<br><br><u>By road</u><br>Leave the M4 at junction 33, follow the A4232 to Cardiff Bay and follow signposts to National Assembly for Wales, CF99 1NA.<br><br><u>Car Parking</u><br>The nearest pay and display car park is at Mermaid Quay, a short walk from the Pierhead. The car park is permanently staffed by security guards. Voucher parking is available outside the Norwegian Church.<br><br><u>Coach parking</u><br>A map detailing coach dropping-off points is available on request from the Assembly Booking Line. The booking line can be contacted on **0845 010 5500** or by emailing assembly.info@wales.gsi.gov.uk.<br><br><u>Accessible parking for disabled visitors</u><br>Parking is available in the Assembly car park for disabled |

| | |
|---|---|
| maes parcio'r Cynulliad i ymwelwyr anabl drwy drefnu ymlaen llaw. Gellir trefnu man parcio drwy ffonio llinell archebu'r Cynulliad ar 0845 010 5500. Rhaid i ymwelwyr arddangos eu tocyn parcio anabl wrth gyrraedd y maes parcio. | visitors by prior arrangement. Parking can be arranged through the Assembly booking line on 0845 010 5500. Visitors must display their disabled parking badge on arrival. |